# CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN TOWN COUNCIL

**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB**
**Maer: Cyng Chris Jones Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding**

## AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER, EBRILL Y 5ed 2023

**1.** Croesawu pawb i'r cyfarfod
**2.** Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)
**3.** Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol, neu ragfarnol)
**4.** Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.
**5.** Derbyn a chymeradwyo cofnodion Mawrth y 15fed 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLlL1972 Atodlen 12)
**6.** Trafod a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer adolygiad strategol o ddarpariaeth gwasanaeth CBS Conwy yn Llanfairfechan
   a. Meysydd Parcio
   b. Pwll Padlo
   c. CCTV
   d. Chwarae Allan
   e. Tai Bach Cyhoeddus
   f. Goleuadau Nadolig
**7.** Derbyn gwybodaeth am Neuadd Pendalar ac adolygu'r cynnydd.
**8.** Trafod a chymeradwyo cais grant s137 Grŵp Chwarae Llanfairfechan
**9.** Trafod a chymeradwyo datganiad Archwilio 2021/22
**10.** Trafod a chymeradwyo'r asesiad Risg Ariannol wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2023
**11.** Derbyn gwybodaeth a thrafod adroddiad Data y Farchnad Bwyd a Chrefftau 2023
**12.** Trafod a chymeradwyo llyfrau lluniau'r Dirprwy Faer a'r cyn-feiri
**13.** Trafod a chymeradwyo baneri siopau – cynlluniau'r dyfodol
**14.** Trafod a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Ebrill 2023
**15.** Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Ebrill 2023

| **Taliadau i'w cyflwyno** |
|---|
| 1. Kirsty Merrell Daily Trwydded TENS Ebrill £21.00 |
| 2. Cyflogau'r Staff a'r Cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Ebrill 2023 £4700 (sylwch ar y cynnydd yn unol â'r cytundeb praesept) |
| 3. Llogi Neuadd Gymunedol y Dref ar gyfer marchnad Ebrill £120.00 |
| 4. GyME project Autotop (arwyddion) £320.00 |
| 5. North Wales Fencing Gerddi Fictoria £7068.00 |
| 6. Grant ar gyfer gweithgareddau'r Urdd mewn Ysgolion £2880 |
| 7. CBS Conwy Sgipiau Cymunedol £720.00 |
| 8. Ffi am Archwiliad Allanol 2022/2023 £200 |
| 9. Menter Iaith Cyfieithu Cofnodion Chwefror a Mawrth £675.43 |
| 10. Cyfraddau maes parcio Ffordd y Pentref 2023/24 £315.65 |
| 11. Amazon – nwyddau ffenestri a choronau'r coroni £40.27 |
| 12. Amazon – bag troli Kirsty Merrell - £63.95 |
| 13. CBSC Gosod a chynnal a chadw goleuadau Nadolig £13,743.54 |
| 14. Viking – arwyddion tai bach £25.00 |
| **Taliadau ôl-ddyddiedig** |
| 1. Graham Cawthray (placiau meinciau) £45.00 (bydd teuluoedd yn ad-dalu am y rhain) |

**16.** Trafod materion cynllunio
Dim wedi'u derbyn
**17.** Derbyn gohebiaeth

**18.** Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

# CYNGOR TREF
# LLANFAIRFECHAN
# TOWN COUNCIL

**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB**
**Maer: Cyng Chris Jones Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding**

## COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER, EBRILL Y 5ed 2023

**Yn Bresennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Laura Fielding; Maer Chris Jones; Cyng Leena Farhat; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Claire Hughes (ar Zoom); Cyng Nia Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Elgan Owen; Cyng Preben Vangberg; Clerc y Dref Jayne Neal**

1. **Croesawu pawb i'r cyfarfod**
2. **Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)**
   **Cyng Gareth Jones; Cyng Sir Penny Andow; Cyng Christine Roberts** **Penderfynwyd derbyn a nodi**
3. **Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol, neu ragfarnol)**
   **Dim wedi'u datgan** **Penderfynwyd derbyn a nodi**
4. **Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.**

**Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol gyda diddordeb yn Neuadd Pendalar. Cytunwyd y byddwn yn symud eitem 7 ar yr agenda i'w drafod yn gynharach.**

**Eitem 7 Derbyn gwybodaeth am Neuadd Pendalar ac adolygu'r cynnydd.**

**Derbyniodd y Cyngor Tref e-bost gan adran gyfreithiol CBS Conwy yn datgan fod angen clirio Neuadd Pendalar cyn gynted â phosibl er mwyn bodloni gofynion yr yswiriant adeilad gwag sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae gan Gyngor Conwy awdurdodaeth bellach gan ei fod yn adeilad gwag yn Sir Gonwy. Mae'r pwyllgor yn ansicr ynghylch y camau nesaf ar hyn o bryd gan nad oes modd i'r Cadeirydd barhau. Cytunodd yr ysgrifennydd presennol, Haf Jones, gymryd yr awenau fel Cadeirydd ac mae trysorydd gweithredol ond mae angen ysgrifennydd er mwyn cyfansoddi'r grŵp. Mae modd i CVSC weithredu fel ymddiriedolwr dros dro yn ystod y broses recriwtio ac fe allan nhw gynorthwyo gyda recriwtio aelodau ar gyfer y pwyllgor. Mae'n bosibl y gallai'r Neuadd Gymunedol ofalu am y cyfarpar nes bod ei angen yn Neuadd Pendalar. Cafodd y Cyngor Tref eu hatgoffa fod gan Gyngor Conwy storfeydd posibl, ond fe ffefrir cadw'r cyfarpar yn Llanfairfechan. Clerc i anfon e-bost Conwy ymlaen at y pwyllgor ac eraill sydd â diddordeb a chysylltu hefyd ynghylch y byrddau tenis bwrdd.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

5. **Derbyn a chymeradwyo cofnodion Mawrth y 15fed 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLlL 1972 Atodlen 12)**

**Derbyniwyd gwybodaeth am y llwybr ceffyl eisoes mewn cyfarfod blaenorol. CBS Conwy sy'n berchen ar yr ardal, ac maen nhw'n ymwybodol. Gofynnwyd am arolwg ystlumod – dylid cysylltu gyda'r swyddog coed yn CBS Conwy.**

**12.5 Mae Conwy wedi mynd ati i ymchwilio i'r tyllau yn y ffordd ar hyd Nant y Felin ac fe wnaethon nhw ddatgan na fyddan nhw'n gweithredu ar hyn o bryd ond y byddan nhw'n monitro'r sefyllfa. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod safle gan y cytunwyd nad ydy hyn yn dderbynion. Gofynnwyd i'r Clerc hefyd sicrhau bod y Cynghorydd Sir ar ran Ward Bryn yn ymwybodol ac yn derbyn gwahoddiad i'r cyfarfod.**

**Cynigwyd gan y Cyng L Farhat Eiliwyd gan y Cyng E Owen Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi**

**5 a Rhestr Weithredu**

**Maes Chwarae Aml-ddefnydd Traeth Pen Morfa -** **Mae'r twll wedi'i atgyweirio am gost o £250.00 felly mae hyn yn golygu y bydd modd ail-agor y cyrtiau ar gyfer y Pasg. Diolch i'r swyddog chwarae o Gonwy am drefnu hyn.**

**Trawstiau a Ffensys wedi'u gosod a'u cwblhau yng Ngerddi Fictoria erbyn hyn (cyfanswm o £8000). Derbyniwyd adborth addawol ac mae'r man chwarae'n fwy diogel i blant a theuluoedd o ganlyniad.**
**Llys Petanque – Mae Gefeillio Trefi wedi cymryd yr awenau dros hyn ac maen nhw'n bwrw iddi gyda'r gwaith er mwyn ei gwblhau cyn mis Mai. Penderfynwyd derbyn a nodi**

**6. Trafod a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer adolygiad strategol o ddarpariaeth gwasanaeth CBS Conwy yn Llanfairfechan**

**Mae'r mater hwn yn dilyn cyfarfod gweithgor ar Fawrth yr 20fed er mwyn trafod maes parcio'r promenâd. Cytunwyd na fyddai modd dwyn i ystyriaeth y mater yn unigol gan fod gofyn i'r Cyngor Tref gyfrannu oddeutu £47,000 y flwyddyn tuag at wasanaethau Conwy. Soniwyd fod hyn yn gyfwerth ag oddeutu un rhan o dair y gyllideb lawn ac felly mae'n amhosibl bodloni'r gofyn hwnnw. Cafodd y praesept ei gynyddu eisoes yn 2023/24 er mwyn cyfrannu ychydig dros £5000 i CBS Conwy tuag at CCTV, Chwarae Allan, y Llyfrgell a Phyllau Padlo. Mae'r Cyngor Tref wedi cynyddu'r praesept eisoes i gynnwys cyfraniad o £3000 tuag at y llyfrgelloedd. Cytunwyd y dylid adolygu'r mater a bydd angen blaenoriaethu cynnal ymgynghoriad gyda'r preswylwyr. Soniwyd bod y prisiau meysydd parcio yn agored i drafodaeth – clerc i holi ynghylch y rheol 20 munud. Bu ymholiad ynghylch y sgipiau cymunedol ond fe gytunwyd bod y sgipiau yn bodloni'r angen gan fod pobl yn gwneud defnydd helaeth ohonyn nhw. Soniwyd bod Cyngor Tref Penmaenmawr wedi penderfynu cynnig sgipiau bob yn ail mis erbyn hyn. Cytunwyd bod Chwarae Allan yn bwysig ac yn werth da am arian. O ganlyniad i'r CCTV, roedd modd cadw'r lanfa ar agor yn ystod y gaeaf pan fo'r tywydd yn caniatáu hynny.**
**Bydd angen trafod anghenion Goleuadau Nadolig o hyn ymlaen gan fod £6800 yn swm aruthrol i'w neilltuo pob blwyddyn. Mae'n bosibl y bydd gofyn i'r gymuned godi arian tuag at y goleuadau Nadolig o hyn allan.**
**Cytunwyd y dylid ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen gyda'r aelodau canlynol: Dirprwy Faer Laura Fielding; Cyng L Farhat: Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Nia Jones; Cyng Preben Vangberg. Clerc i anfon dyddiad ar gyfer y cyfarfod cyntaf.**
**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**8. Trafod a chymeradwyo cais grant s137 Grŵp Chwarae Llanfairfechan**

**Cais grant am £500 i brynu tywod ar gyfer pwll tywod mawr newydd y gallwch gerdded i mewn iddo. Mae'r ardal yn addas i bawb ac mae gorchudd am ei ben fel bod modd ei ddefnyddio ym mhob tywydd. Hoffai'r grŵp osod cyfarpar newydd i chwarae yn y tywod yn lle'r hen gyfarpar sydd wedi torri a rhydu. Mae gan y grŵp 52 o blant wedi cofrestru gyda nhw a bydd pob un ohonyn nhw'n elwa o'r tywod. Maen nhw wedi derbyn grantiau yn y gorffennol ac wedi defnyddio'r grantiau hynny'n briodol. Cytunwyd yn unfrydol y dylid cyflwyno'r grant. Clerc i weithredu'r broses.**
**Cynigwyd gan y Cyng N Jones; Eiliwyd gan y Cyng P Vangberg Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi**

**9. Trafod a chymeradwyo Datganiad Archwilio 2021/22**

**Mae'r wybodaeth wedi'i rhannu eisoes a gan fod yr archwiliad wedi'i gymeradwyo'n ddi-amod, ni chodwyd unrhyw bryderon ac ni chynhaliwyd trafodaeth bellach. Cost yr archwiliad allanol ar gyfer 2021/22 ydy £200.00.**
**Cynigwyd gan y Cyng C Jones Eiliwyd gan y Cyng N Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi**

**10. Trafod a chymeradwyo'r asesiad Risg Ariannol wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2023**

**Cafodd y ddogfen ei rhannu ymlaen llaw ac fe'i dangoswyd ar y sgrin. Cytunwyd bod y ddogfen yn addas i'w diben.**
**Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng L Farhat Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi**

**11. Derbyn gwybodaeth a thrafod Adroddiad Data y Farchnad Bwyd a Chrefftau 2023**

**Cafodd yr eitem ei symud i'r cyfarfod nesaf Penderfynwyd derbyn a nodi**

**12. Trafod a chymeradwyo llyfrau lluniau'r Dirprwy Faer a'r cyn-feiri**

**Atgoffwyd yr aelodau y byddai rôl y Dirprwy Faer yn wag o fis Mai ymlaen ac fe ddylai unrhyw un sy'n dymuno sefyll geisio cynigydd ac eilydd cyn y cyfarfod nesaf. Awgrymwyd hefyd ein bod yn darparu llyfr lluniau i gofio ar gyfer Meiri sy'n ymddeol yn hytrach na bathodyn cyn-Faer gan gaiff ei ystyried yn gost uchel ddiangen erbyn hyn. Mae'r llyfr lluniau'n gofrodd cost isel o'r flwyddyn yn y swydd.**
**Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng L Farhat Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi**

**13. Trafod a chymeradwyo baneri siopau – cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

**Mae pryderon ynghylch ansawdd y baneri presennol gan eu bod yn torri'n gymharol sydyn oherwydd y gwynt. Clerc i gasglu mwy o wybodaeth a'i gadw ar gofnod ond fe ddylid cadw'r baneri presennol yno nes ein bod yn penderfynu y dylid eu newid i rai defnydd polyester. Cytunwyd y dylai'r cynllun fod yn un heb destun felly gellir defnyddio baner polyester haen sengl. Gellir dwyn y mater ger bron y Cyngor Tref i wneud penderfyniad pan fo'n briodol.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**14. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Mawrth 2023**

**Soniwyd bod £850 o gyfraniadau wedi'i dderbyn ar gyfer meinciau gan y teuluoedd sydd â chofebion ar y Cob ac mae angen gosod meinciau newydd mewn sawl man yn y dref. Clerc i gasglu gwybodaeth a'i ychwanegu at agenda y cyfarfod nesaf er mwyn gwneud penderfyniad bryd hynny.**

**Mae £20,000 wedi'i drosglwyddo i dalu am wariant y prosiectau eleni – meinciau, ffensys a thrawstiau yng Ngerddi Fictoria a goleuadau Nadolig.**

**Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng A Hinchliff Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi**

**15. Derbyn a chymeradwyo taliadau cyfredol ar gyfer Ionawr 2023**

**Soniwyd bod Clerc y Dref wedi talu'r taliad TENS y tro hwn felly mae'r ad-daliad wedi'i newid.**

**Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng N Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi**

**16. Trafod materion cynllunio – ni dderbyniwyd unrhyw faterion Penderfynwyd derbyn a nodi**

**17. Derbyn gohebiaeth**

1. **Derbyniwyd llun o hyfforddiant catrawd o'r Rhyfel Byd Cyntaf ar barc traeth pen morfa. Roedd y llun yma'n hysbys cyn hynny, a soniwyd bod y catrodau hyn yn dod o ardaloedd eraill i hyfforddi felly nid oes preswylwyr lleol o reidrwydd yn y llun. Ni dderbyniwyd y syniad o osod y llun ar y senotaff oherwydd nad ydy manylion llawn y llun wedi'u cadarnhau. Fodd bynnag, soniwyd os oes modd dod o hyd i lun o Warchodlu Cartref Llanfairfechan, gellir ystyried gosod y llun hwn yno. Clerc i ymateb i'r e-bost gan ddiolch am yr awgrym ac egluro'r penderfyniad.**
2. **Adroddiad bod lloches fws y tu allan i eiddo ar Ffordd Penmaenmawr yn achosi trafferthion. Mae pobl ifanc a phlant yn rhedeg o amgylch y lloches ac i mewn i'r dramwyfa. Mae'r preswylydd yn anfodlon eu bod nhw wedi'u cau mewn pan fo bysiau a choetsis yn stopio i gludo teithwyr o'r lloches. Cais i symud y lloches fws. Clerc i ymchwilio i hyn ac adrodd yn ôl.**
3. **Derbyniwyd e-bost gan y Gymdeithas Hwylio Frenhinol i roi gwybod bod y digwyddiad Ffin a Ffoil wedi'i ganslo er mwyn gallu treulio amser yn adolygu'r gweithgareddau a sicrhau eu bod yn parhau i gyd-fynd gyda'r blaenoriaethau cyfundrefnol. Derbyniwyd yr wybodaeth hon yn siomedig a bydd y Clerc yn ymchwilio i hyn ymhellach. Soniwyd bod Clwb Hwylio Llanfairfechan yn bwriadu trefnu Ras o Amgylch Ynys Seiriol ar gyfer y penwythnos hwnnw. Gan hynny, roedden nhw'n dal yn awyddus i gynnal farchnad grefftau yno ar y dydd Sul.**
4. **Roedd gwybodaeth am berchnogaeth tir Conwy wedi'i rannu eisoes mewn cyfarfod blaenorol. Soniwyd nad oedd yn fater y dylai'r Cyngor Tref fynd i'r afael â hi ar hyn o bryd.**

**18. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd**

1. **Llywodraethwyr Ysgol Pant y Rhedyn Adroddwyd bod parcio yn Yr Heath yn achosi peth anhawster ar hyn o bryd gan fod Adran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau yn disgwyl i'r ysgol agor a chau'r giatiau trwm yn ystod y diwrnod ysgol. Mater pryderus ynghylch dyfodol y prosiect i symud yr ysgol i adeilad newydd pwrpasol. Mae'n ymddangos fod hon yn broses cystadleuol erbyn hyn, ac mae'n rhaid i'r ysgol gyfiawnhau'r rhesymau dros symud. Nodwyd yr oedd Llanfairfechan yn ail ar y rhestr yn flaenorol ar ôl ysgol Awel y Mynydd sydd wedi'i hadeiladu erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r prosiect Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain wedi'i ohirio am y tro a'i newid yn sgil yr heriau ariannu. Clerc i gysylltu gyda'r pennaeth i ofyn ym mha ffordd y gallai'r Cyngor Tref gynnig cymorth ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf lle byddai'r Cyngor Tref yn ystyried ymateb ffurfiol. Mae prinder Llywodraethwyr Rhieni / Athrawon ar hyn o bryd felly fe gaiff unrhyw un sy'n awyddus i ymuno fel Llywodraethwr eu hannog i gysylltu gyda'r ysgol.**
2. **Darganfod Llanfairfechan Mae'r pwyllgor yn dymuno diweddaru eu casgliad o nwyddau ac maen nhw wedi cytuno y byddan nhw'n cynhyrchu 400 calendr ar gyfer 2024.**
3. **Prosiect y Celfyddydau ar y gweill yn Llanfairfechan a Phenmaenmawr Caiff y prosiect ei lansio'n fuan – mae artist cymunedol Manon Hughes yn awyddus i gydweithio gyda grwpiau yn y dref. Caiff y prosiect ei lansio yn y farchnad ym mis Ebrill.**

4. **<u>Pwyllgor Cyllid a Chraffu CBSC</u> Clerc wedi arsylwi'r cyfarfod er mwyn dysgu mwy am Gronfa Ffyniant y DU. Datganwyd yn amlwg y caiff cyllid Cam 2 ei ddefnyddio i ymwneud gyda'r ardal yn ei chyfanrwydd ac fe ddylen ni fynegi hyn yn ein cais.**

19. **<u>Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys</u>**

1. **Mae baw cŵn yn broblem fawr o amgylch Ysgol Babanod yn enwedig – Clerc i drefnu gosod bagiau baw cŵn ar y ffensys.**
2. **Mae arwydd newydd wedi'i osod yn gofyn i geir o amgylch yr ysgol i beidio â gadael eu hinjan yn segur.**
3. **Gofynnodd preswylwyr ym Mhendalar am osod arhosfan fws parhaol gyda lloches. Soniwyd na fyddai CBS Conwy yn codi lloches, a byddai'n rhaid i'r Cyngor Tref dalu amdani o'u praesept nhw. Clerc i e-bostio cyswllt yn CBS Conwy i geisio'u cyngor.**
4. **Mae STAND yn trefnu archwiliad hygyrchedd ar gyfer meysydd chwarae Sir Gonwy yn ein hardal. Cytunwyd y byddwn yn cynorthwyo gyda hyn.**
5. **Codwyd pryderon pellach ynghylch cyffordd Parc Crescent. Cafodd ei ailddatgan na fyddai CBS Conwy yn cytuno i osod drychau a bod preswylwyr eraill yr ardal yn ymddangos yn ddi-hid. Awgrym y dylai'r preswylydd gysylltu gyda CBS Conwy yn uniongyrchol.**
6. **Lloches ger y bont droed ar y Promenâd – Ymwybodol bod hyn yn rhan o'r ail-ddatblygiad posibl drwy'r cynllun amddiffyn rhag llifogydd, ond a fyddai modd ei beintio fel cam dros dro?**
7. **Swydd Wag ar ran Ward Lafan – mae tri unigolyn wedi dangos diddordeb ac mae'n gyfnod etholiad ar hyn o bryd felly mae Conwy yn gyfrifol am y mater nes Ebrill y 18fed. Wedi hynny, os nad oes unrhyw un wedi galw etholiad, gallai'r Cyngor Tref gyfethol a chaiff pawb sydd â diddordeb eu gwahodd i'r Cyngor Tref ar gyfer y penderfyniad.**
8. **Democratiaeth – codwyd pryderon ynghylch y rheolau newydd o ran adnabod unigolion mewn gorsafoedd etholiad. Awgrymwyd cynnal sesiwn i gynorthwyo pobl i gofrestru ar gyfer pleidlais drwy'r post.**

9. **Nodyn atgoffa y byddai'r Cyngor Tref yn darparu coronau i'r plant eu haddurno yn barod ar gyfer y coroni. Gallan nhw gyflwyno'u coronau'n gyfnewid am fisged coroni. Cytunwyd y gallai'r Clerc archebu 100 o fisgedi coroni ar gyfer y prosiect. Cynhaliwyd pleidlais.**

**Cynigwyd gan y Cyng C Jones Eiliwyd gan y Cyng N Jones Penderfyniad mwyafrif gyda 4 yn ymatal Penderfynwyd derbyn a nodi**

10. **Cadarnhawyd bod y Clwb Pêl-droed yn trefnu digwyddiadau ar gyfer y coroni a bydd y ffordd ar gau yn y pentref uchaf.** **<u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:15yh. Bydd y cyfarfod nesaf am 7yh ar ddydd Mercher, Ebrill y 26ain 2023 yn Siambr y Cyngor ac ar-lein.**